Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

# Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd: Parodrwydd yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio

Canfyddiadau'r arolwg

Hydref 2020

## Cefndir

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn cynnal ymchwiliad i'r paratoadau yng Nghymru ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Fel rhan o'i waith craffu, cynhaliodd y Pwyllgor arolwg, a hwyluswyd gan y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion, i gasglu sylwadau unigolion a busnesau am y wybodaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Daeth yr arolwg i ben ar 19 Hydref 2020.

## Hyrwyddo a dadansoddi'r arolwg

Hyrwyddwyd yr arolwg yn helaeth drwy amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys:

- rhwydweithiau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol rhanddeiliaid allweddol;
- gwefan y Senedd a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys hysbysebion â ffocws a oedd yn ein galluogi ni i dargedu cynulleidfaoedd mewn ardaloedd lle mae'r gyfradd ymateb yn aml yn is.

Caiff y canlyniadau eu cyfrifo yn ôl y nifer a ymatebodd i'r cwestiwn penodol, yn hytrach na'r nifer a ymatebodd i'r arolwg yn gyffredinol. Rydym wedi cael **196 o ymatebion** i'r arolwg.

Ymdrinnir â phob cwestiwn yn ei dro.

1. Mae'r DU bellach mewn cyfnod pontio tan 31 Rhagfyr 2020. Er mwyn paratoi dinasyddion, sefydliadau a sectorau ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu nifer o adnoddau, gan gynnwys *Gwefan 'Paratoi Cymru'*, Porth Brexit a digwyddiadau arbennig.

Wrth feddwl am y wybodaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn:

***"Rwy'n ymwybodol o'r ystod o gymorth a gwybodaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'm helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio."***

Dywedodd **52.6%** o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn eu bod yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn; roedd **19.1%** yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad, a dywedodd **28.3%** nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad.

2. A ydych wedi manteisio ar unrhyw wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio?

Nid oedd **75.9%** o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn wedi manteisio ar unrhyw wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Roedd **16.4%** o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn wedi manteisio ar wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, a doedd **7.7%** ddim yn gwybod.

3. A oes unrhyw resymau pam yr ydych chi wedi dewis peidio â manteisio ar unrhyw wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Diffyg ymwybyddiaeth o'r ystod o wybodaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod trosglwyddo oedd yr opsiwn a ddewisodd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (**49.3%**).

Dywedodd **22.4%** nad oedd arnynt angen gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru. Roedd rhai ymatebwyr nad oeddent yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt gan Lywodraeth Cymru (**11.9%**), tra bod eraill wedi ceisio gwybodaeth mewn man arall (**10.5%**).

Dywedodd rhai ymatebwyr nad yw'r pwnc roedd arnynt angen gwybodaeth amdano wedi’i ddatganoli i Gymru (6.0%), a’r opsiwn a ‘Ddim yn gwybod’ oedd yr opsiwn a ddewiswyd gan y nifer leiaf ohonynt (1.5%).

O ran y rhai a ddewisodd ‘Arall (rhowch fanylion)’ (9.7%), diffyg ymddiriedaeth a/neu ffydd yn Llywodraeth Cymru oedd y rhesymau a nodwyd gan amlaf :-

- *“Dim ffydd yn Llywodraeth Cymru”*
- *“Pa bynnag wybodaeth y byddwch yn ei chyhoeddi, nid wyf yn ymddiried yn Llywodraeth Cymru i ymddwyn yn gydnaws â phleidlais pobl Cymru i adael yr UE.”*
- *“Ni lwyddais i ddod o hyd i UNRHYW wybodaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol”*
- *“Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn ei chwys ei hun yn llechwraidd. Peidiwch ag ymddiried ynddyn nhw. ”*

### 4. Mewn perthynas â pha bwnc neu fater ydych chi wedi manteisio ar wybodaeth gan Lywodraeth Cymru? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Y meysydd pwnc a ddewiswyd amlaf gan y rhai a ymatebodd i’r cwestiwn hwn oedd y cyfnod pontio **(50%)** a busnes a’r economi **(50%)** Yna, cronfeydd yr UE (36.4%), gwasanaethau iechyd a chymdeithasol (31.8%), a Dinasyddion yr UE yng Nghymru (31.8%).

Addysg a sgiliau (22.7%), gwasanaethau lleol a'r trydydd sector (22.7%) a diogelu data (22.7%) oedd y set nesaf o feysydd pwnc a ddewiswyd fwyaf gan y rhai a ymatebodd i’r cwestiwn hwn.

Y pynciau a ddewiswyd yn llai aml oedd anabledd (18.2%), pysgodfeydd (18.2%), cydlyniant cymunedol (18.2%) yr amgylchedd, amaethyddiaeth a bwyd (13.6%), a thrafnidiaeth (9.1%). O ran y rhai a ddewisodd ‘Arall (rhowch fanylion)’ (9.1%), dyma’r atebion a roddwyd:-

*“Ymchwiliadau’r UE i gronfeydd dramor neu anghyfreithlon.”*

*“Hawliau Dynol yr UE”*

### 5. Pa rai o'r adnoddau a ganlyn gan Lywodraeth Cymru ydych chi wedi manteisio atynt? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

Yr opsiwn mwyaf poblogaidd a ddewiswyd gan y rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn oedd gwefan 'Paratoi Cymru' Llywodraeth Cymru (71.4%).

Yr ail opsiwn mwyaf poblogaidd oedd Porthol Brexit Busnes Cymru (47.6%) ac adnoddau ar-lein eraill gan Lywodraeth Cymru – er enghraifft, gwefan Masnach a Buddsoddi Llywodraeth Cymru, gwefan GwerthwchiGymru a/neu'r Gwasanaeth Cynghori ar Fewnfudo i ddinasyddion yr UE yng Nghymru (23.8%).

Yr opsiynau a nodwyd yn llai aml oedd cylchlythyr - er enghraifft, cylchlythyr Busnes Cymru, bwletin Pysgodfeydd a Brexit a / neu gylchlythyr cyllid yr UE (14.3%), gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru - er enghraifft, llythyrau a / neu e-byst (9.5%), Teleffon – er enghraifft, llinell gymorth Busnes Cymru (4.8%), cyfarfodydd preifat gyda Llywodraeth Cymru (4.8%) a digwyddiadau (4.8%).

### 6. Wrth feddwl am y wybodaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad a ganlyn:

***"Mae'r cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'm helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio yn ddefnyddiol."***

Roedd 57.1% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hyn yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn; roedd 33.4% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf, a dywedodd 9.5% nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r datganiad.

### 7. Yn eich barn chi, a oes angen gwella'r wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio?

Roedd 90% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o'r farn bod angen gwella'r wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. Nid oedd 5% o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn credu bod angen ei gwella a doedd 5% arall ddim yn gwybod.

### 8. Pa welliannau hoffech chi eu gweld i'r wybodaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio?

Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n fawr ac ni wnaethant ddatgelu unrhyw themâu cyffredin. Mae braslun o'r ymatebion isod. Mae'r holl ymateb ar gael ar gais: -

- *"Ddim mewn gwirionedd o ran ei gallu i egluro'r hyn sydd angen ei egluro oherwydd methiant parhaus llywodraeth y DU i gytuno ar gytundeb masnach.* Y gwir yw bod pob un ohonom yn sicr o fethu. Rwy'n gweithio

ym maes lletygarwch ac mae gen i lety. Rwy'n dibynnu ar archebion gan gwmnïau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU ac oherwydd bod llywodraeth y DU yn ceisio Brexit heb gytundeb, ni fydd cytundeb digonolrwydd i'n galluogi i barhau i rannu data. Bang. Mae ein holl fasnach yn diflannu dros nos."

- *"Mae'n amhosib i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol heb i lywodraeth y DU gytuno ar rywbeth gyda'r Undeb Ewropeaidd."*
- *"Byddai'n braf gwybod a fydd ein cyflenwyr yng ngwledydd yr UE yn ystyried ei bod yn werth trafferthu llenwi gwaith papur yn ymwneud â thollau i fasnachu â ni."*
- *"Dylid cyflogi pobl sy'n gweithio / wedi gweithio ym maes masnach ryngwladol. Mae popeth a ddaw gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar waith dyfalu gan weision sifil am yr hyn sy'n digwydd yn y byd masnach - ac mae'r rhan fwyaf ohono'n fasnachol sensitif; felly nid oes unrhyw fusnes yn mynd i ddatgelu beth maen nhw'n ei wneud na sut. "*
- *"Canllawiau manylach. Mae gwybodaeth yn aml ar lefel rhy uchel ac weithiau mae'n ymddangos ei bod yn beirniadu Llywodraeth y DU neu'r ymgyrch i adael yr UE. "*
- *"Ar adeg pan mae'r mwyafrif wedi bod yn gweithio gartref, byddai wedi bod yn braf gweld Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dulliau mwy arloesol o ledaenu gwybodaeth i'r rhai sydd ei hangen. Byddwn wedi croesawu mwy o wybodaeth ddigidol, drwy gyfrwng gweminarau'n trafod sectorau neu bynciau penodol y gallwn fod eu gwylio'n awr ac yn y man pan fyddai hynny'n gyfleus. Mae pobl, yn enwedig perchnogion busnes, yn gweithio oriau gwirion i geisio gwneud synnwyr o'r hyn a allai ddigwydd ar ddiwedd y cyfnod pontio felly byddai hyn wedi bod yn ddefnyddiol. "*
- *"Cymaint o wybodaeth â phosibl mewn cynifer o ieithoedd yr UE â phosibl."*
- *"Gwybodaeth agored ar gael yn eang AC YN CAEL EI HYSBYSEBU"*

## 9. Os ydych wedi manteisio ar wybodaeth o unrhyw le arall i'ch helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio, gan ba un o'r asiantaethau, cyrff a / neu awdurdodau a ganlyn gawsoch chi'r wybodaeth?

Nid oedd **49.3%** o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn wedi cael gwybodaeth i'r helpu i baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio?

O ran y rhai a oedd wedi manteisio ar wybodaeth, hysbysiadau technegol Llywodraeth y DU oedd yr opsiwn a ddewiswyd amlaf (**28.4%**), ac yna sefydliadau yn y sector cyhoeddus (gan gynnwys adrannau Llywodraeth y DU ac adrannau anweinidogol y llywodraeth fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd) (**17.6%**), y trydydd sector (gan gynnwys elusennau, undebau ffermio a sefydliadau busnes) (**12.8%**), awdurdodau lleol (**9.5%**), y sector preifat (gan gynnwys gwasanaethau ymgynghori) (**6.1%**). O ran yr 7.4% a ddewisodd 'Arall (rhowch fanylion)', dyma rai o'r atebion mwyaf cyffredin:-

- *"Y cyfryngau cymdeithasol"*
- *"Gwybodaeth gan yr UE"*
- *"Hysbysiadau gan yr UE"*
- "Y BBC"

## Demograffeg yr ymatebwyr

### Lleoliad

Nododd **59.2%** o ymatebwyr yr arolwg eu bod o Dde Cymru, nododd **16.7 y cant** eu bod o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, a nododd **24.1%** eu bod o Ogledd Cymru.